newyddion LLAIS SIR GÂR

Carmarthenshire Voice

Llais Sir Gâr

CYFLWYNIAD

Menter ymgynghori gyffrous yw Panel Dinasyddion Sir Gaerfyrddin a ddatblygwyd mewn partneriaeth gan Gyngor Sir Caerfyrddin, Heddlu Dyfed-Powys a Grŵp Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin. Mae'r Panel yn cynnwys 1,200 o drigolion sy'n gynrychiolaeth gyffredinol o boblogaeth Sir Gaerfyrddin sydd wedi cytuno i gymryd rhan mewn ymchwil bellach.

Mae aelodaeth y Panel yn cael ei monitro'n rheolaidd er mwyn gwneud yn siwr ei bod yn parhau i fod yn gynrychiolaeth deg o boblogaeth Sir Gaerfyrddin. Er mwyn cyflawni hyn mae tua thraean o'r Panel yn cael ei newid bob blwyddyn. Rydym newydd gwblhau'r broses hon am y tro cyntaf yn ddiweddar felly estynnwn groeso cynnes i'n haelodau newydd!

PWRPAS Y PANEL

Rydym am glywed eich barn am y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio arnoch yn eich bywyd beunyddiol. Rydym oll yn ymroddedig i wella ein gwasanaethau a sicrhau eu bod yn cyfateb i'ch anghenion a'ch disgwyliadau.

Dosberthir barn Llais Sir Gaerfyrddin i bob cwr o'r partner fudiadau a bydd yn fodd o sefydlu cronfa o wybodaeth am farn pobl Sir Gaerfyrddin. Bydd yn ddefnyddiol i olrhain agweddau ac opiniwn dros gyfnod o amser ac i ymchwilio barn y rhai hynny sydd yn defnyddio gwasanaethau arbennig yn ogystal â'r rhai hynny nad ydynt yn defnyddio'r cyfryw wasanaethau.

PANEL DINASYDDION SIR GAERFYRDDIN

RHIFYN 3 – RHAGFYR 2002

AROLWG PANEL 4
(Medi – Hydref 2002)

Ymatebodd 698 i'r arolwg hwn, sef cyfradd o 59%

Roedd Arolwg 4 yn holi ynghylch eich amser hamdden er mwyn ein galluogi i lunio darlun o'ch gweithgareddau hamdden. Bydd y cwestiynau a ofynnwyd yn gymorth i Adain Hamdden Cyngor Sir Caerfyrddin deilwra'r gweithgareddau a'r cyfleusterau y mae'n eu cynnig. Gofynnwyd hefyd am eich barn ynghylch y gwasanaethau a ddarparwyd gan Adain Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor a Chynllun Iaith Diwygiedig y Cyngor.

ADRAN A - Eich Gweithgareddau Hamdden

A ydych wedi ymweld ag amgueddfa yn ystod y flwyddyn hon?



Roedd ychydig mwy na hanner o'r rhai a ymatebodd (51%) wedi ymweld ag amgueddfa yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ydych chi wedi ymweld â llyfrgell yn y flwyddyn hon?



Roedd bron i ddwy ran o dair a ymatebodd (64%) wedi ymweld â llyfrgell yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Ydych chi wedi cymryd rhan mewn unrhyw chwaraeon dan do yn y 3 mis diwethaf?



Gofynnwyd a oeddech wedi cymryd rhan mewn unrhyw chwaraeon dan do yn y 3 mis diwethaf. Roedd bron i ddwy ran o dair ohonoch (69%) wedi ateb yn gadarnhaol.



Ar y cyfan, pa mor aml ydych chi'n cael pryd o fwyd mewn tafarn neu fwyty?

Pan ofynnwyd, 'Ar y cyfan, pa mor aml ydych chi'n cael pryd o fwyd mewn tafarn neu fwyty?' yr ateb mwyaf poblogaidd oedd unwaith y mis (25%), ond y mae cyfran go helaeth ohonoch (15%) yn dweud eich bod yn cael pryd o fwyd allan bob wythnos. 3% yn unig ohonoch oedd byth yn cael pryd o fwyd mewn tafarn neu fwyty.

Carmarthenshire Voice

Llais Sir Gâr

PANEL DINASYDDION SIR GAERFYRDDIN

ADRAN B - Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd - Cyngor Sir Caerfyrddin

Dangoswyd rhestr i aelodau'r Panel o'r gwasanaethau a ddarperir gan Wasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir Caerfyrddin a gofynnwyd iddynt pa mor bwysig oedd pob elfen.

Barnwyd mai'r pedwar gwasanaeth pwysicaf (o ran atebion 'pwysig iawn') oedd y rheiny a fyddai'n effeithio fwyaf ar iechyd yr unigolyn:



ADRAN C - Cynllun Iaith diwygiedig Cyngor Sir Caerfyrddin



Pan ofynnwyd **'Pa mor bwysig ydyw bod y Cyngor yn ymrwymo'n llwyr i ddarparu gwasanaethau yn unol â dewis iaith ei gwsmeriaid, naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg?'** roedd bron i hanner y rhai a holwyd (48%) o'r farn ei fod yn bwysig iawn ac yr oedd 38 % arall o'r farn ei fod yn eithaf pwysig.

(nifer a holwyd 697)



Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r Cyngor ymrwymo'n llwyr i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg sydd o'r un safon â'r gwasanaethau sydd ar gael yn Saesneg?

((nifer a holwyd 695)

Holwyd cwestiwn a oedd yn asesu perfformiad y Cyngor - **'Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod gwasanaethau'r Cyngor ar gael yr un mor hwylus yn y Gymraeg ag y maent yn Saesneg?'**

(nifer a holwyd 695)



TRAFODAETHAU'R GRWPIAU FFOCWS

Fis Mai cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd grwpiau ffocws yn y Sir. Bu'r aelodau a ddewiswyd ar hap o blith aelodau Panel Dinasyddion Sir Gaerfyrddin yn trafod Cynllun Iaith diwygiedig y Cyngor a gwasanaeth Parciau a Mannau Agored y Cyngor.

- Bu'r gyfres gyntaf o gyfarfodydd yn ymdrin â Chynllun Iaith diwygiedig Cyngor Sir Caerfyrddin ac fe'u hwyluswyd gan Swyddog Polisi Iaith yr awdurdod. Ystyriwyd eich sylwadau wrth baratoi'r ddogfen derfynol a chymeradwywyd y cynllun gan Cyngor Sir fis Gorffennaf.

  Mae copi o Gynllun Iaith Gymraeg Cyngor Sir Caerfyrddin ar gael ar wefan y Cyngor: www.sirgar.gov.uk neu oddi wrth Llinos Jones 01267 224914 neu Diarmait MacGiollachroist 01267 224113.

- Roedd yr ail gyfres o gyfarfodydd yn canolbwyntio ar Wasanaeth Parciau, Mannau Agored a Chynnal a Chadw Tiroedd o dan arweiniad Gwasanaeth Arolygu, y Comisiwn Archwilio.

Mae copi o adroddiad yr Arolygiaeth Gwerth Gorau ynghylch Gwasanaeth Parciau a Mannau Agored Cyngor Sir Caerfyrddin ar gael ar wefan y Comisiwn Archwilio www.audit-commission.gov.uk neu oddi wrth Ruth Lake 01267 224469.

Mae'r adroddiad yn datgelu bod trigolion y Sir wedi bod yn fodlon iawn â'r gwasanaethau hyn ers rhai blynyddoedd ac y mae'r bobl sy'n defnyddio'r cyfleusterau chwaraeon yn hapus â hwy. Treuliodd yr arolygwyr beth amser yn archwilio parciau'r cyngor, ardaloedd dw^r a thros 200 hectar o barciau a mannau agored at ddibenion hamdden. Edrychwyd yn fanwl hefyd ar gynnal a chadw mannau agored, ysgolion, ystadau tai, ymylon priffyrdd, ystadau diwydiannol a Pharc Arfordirol y Mileniwm. Barnwyd bod y gwasanaeth yn dda a rhoddwyd dwy seren iddo (allan o dair). Darperir amrywiaeth eang o wasanaethau yn y parciau a'r mannau agored ym mhob rhan o'r sir a datblygwyd nifer o bartneriaethau llwyddiannus â chyrff a mudiadau cyhoeddus a phreifat ac y mae'r ddarpariaeth o ran meysydd chwarae i blant yn wella na chyfartaledd Cymru. Mae'r meysydd y gellir eu gwella yn cynnwys cŵn yn baeddu, sy'n derbyn sylw ar hyn o bryd a'r angen am wella rhai ystafelloedd newid.

Dywedodd Anne Delaney, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaeth Arolygu, Comisiwn Archwilio Cymru: "*Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn darparu ystod o barciau, mannau agored a meysydd chwarae o safon uchel sy'n chwarae rôl bwysig o ran gwella ansawdd bywyd mewn cymunedau lleol. Roedd ein harolygwyr wedi rhoi canmoliaeth arbennig i'r meysydd chwarae plant a ddarperir gan y Cyngor.*"

Diolch i holl aelodau'r Panel a dreuliodd amser yn cymryd rhan yn y grwpiau trafod hyn – gobeithio eich bod chi wedi mwynhau'r profiad.

ADBORTH

Cofiwch anfon eich syniadau atom fel y gallwn barhau i wella. Os ydych chi am wneud sylwadau ynghylch unrhyw agwedd ar Banel Dinasyddion Sir Gaerfyrddin, mynnwch air â:

Ruth Lake
Cydgysylltydd Ymgynghori
Yr Adain Gyfathrebu
Cyngor Sir Caerfyrddin
Neuadd y Sir, Caerfyrddin
SA31 1JP

Rhif ffôn: **(01267) 224469**

Rhif ffacs: **(01267) 221737**

E-bost: **RLake@carmarthenshire.gov.uk**

Cyngor Sir Caerfyrddin
Carmarthenshire County Council

Grŵp Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire Local Health Group

PANEL DINASYDDION SIR GAERFYRDDIN